

General
Pharmaceutical
Council

Ymgynghoriad ar Ganllawiau ar yr iaith Saesneg

Medi 2020



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd partner rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni ar communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

Cynnwys

Ynghylch y CFFC	4
Rhagair	5
Y broses ymgynghori	6
Ein cynigion ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg	8
Trosolwg o'r Prawf Saesneg Galwedigaethol (OET).....	10
Diwygiadau i'n canllawiau ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg	13
Cwestiynau'r ymgynghoriad	14
Atodiad 1 - Manylion is-brofion yr OET.....	15
Atodiad 2- geiriad y canllawiau arfaethedig.....	17

**Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Iau 6
Tachwedd 2020**

Ynghylch y CFfC

Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydyn ni'n gweithio i roi sicrwydd ynghylch safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a gwella'r safonau hynny.

Yr hyn a wnawn

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydyn ni'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddyn nhw gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydyn ni'n gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydyn ni'n gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydyn ni'n helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Rhagair

Un o'r ffyrdd allweddol rydyn ni'n diogelu'r cyhoedd yw drwy sicrhau mai dim ond fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol sy'n gallu cofrestru a gweithio ym Mhrydain.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg. Mae cleifion a'r cyhoedd yn disgwyl, a hynny'n briodol, y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal gyfathrebu'n glir â nhw. Gallai caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd heb y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg ymarfer ym Mhrydain hefyd beryglu diogelwch cleifion.

Rydyn ni'n ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gwneud cais i gofrestru fel fferylllydd neu dechnegydd fferyllol ddarparu tystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau i ddangos bod ganddyn nhw'r wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol cyn iddyn nhw allu cofrestru.

Rhaid i'r dystiolaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd fod yn ddiweddar, yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn gadarn. Mae angen i ni hefyd allu gwirio'r dystiolaeth yn hawdd. Ar hyn o bryd rydyn ni'n derbyn sawl math gwahanol o dystiolaeth ac rydyn ni bob amser yn adolygu unrhyw fathau eraill o dystiolaeth a allai fodloni ein meini prawf.

Yn yr ymgynghoriad hwn rydyn ni'n cynnig diwygio ein Canllawiau ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg i gynnwys llwyddo yn y Prawf Saesneg Galwedigaethol Fferyllol (OET) fel tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg, fel dewis

amgen i'r System Profi Saesneg Ryngwladol (IELTS). Byddai hyn yn rhoi opsiwn arall i ymgeiswyr sy'n dymuno cofrestru o ran sut i ddangos eu gallu yn y Saesneg, drwy brawf sy'n defnyddio sefyllfaoedd yn seiliedig ar ymarfer fferyllol.

Rydyn ni am glywed eich adborth ar ein cynigion, gan gynnwys a ydych yn credu y byddai'r newidiadau hyn yn ein galluogi i barhau i sicrhau bod gan weithwyr fferyllol proffesiynol y sgiliau Saesneg sydd eu hangen arnyn nhw i ymarfer yn effeithiol a chadw cleifion yn ddiogel. Edrychwn ymlaen at glywed eich barn



Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Y broses ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad yn para 6 wythnos a bydd yn dod i ben ar 6 Tachwedd 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys:

- darparwyr OSPAP
- sefydliadau sy'n cynrychioli perchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr eraill (fel CCA, NPA, AIMP), a'r GIG yn y tair gwlad
- sefydliadau sy'n cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol (fel yr RPS, APTUK, a'r PDA)
- grwpiau cynrychioli cleifion, ac eraill sydd â diddordeb yn y maes hwn

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom.

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law ac ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Bydd ein Cyngor llywodraethu yn derbyn y dadansoddiad a bydd yn ystyried yr ymatebion wrth gymeradwyo'r canllawiau diwygiedig ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg.

Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnawn. Byddwch yn gallu gweld y rhain ar ein gwefan www.pharmacyregulation.org.

Pam rydyn ni'n ymgynghori

Mae'n ofynnol i ni ymgynghori cyn i ni bennu unrhyw safonau neu ofynion o dan Orchymyn Fferylliaeth 2010. Byddwn hefyd yn ymgynghori lle bo angen i sicrhau ein bod yn arfer ein swyddogaethau statudol yn effeithiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein hamcan cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich ymateb i'n helpu i ddatblygu ein gwaith. Gofynnwn i chi roi rhywfaint o wybodaeth gefndir i ni amdanoch chi ac, os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, eich sefydliad. Rydym yn defnyddio hyn i'n helpu i ddadansoddi effaith bosibl ein cynlluniau ar wahanol grwpiau. Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr proffesiynau iechyd, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau o ran cydraddoldeb. Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddiwedd yr arolwg. Nid oes rhaid ichi ei llenwi, ond os gwnewch hynny, bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Sut rydyn ni'n rhannu'ch gwybodaeth

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw nac yn cyhoeddi'ch ymateb unigol. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw'ch sefydliad ac mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'ch ymateb yn llawn oni bai eich bod yn dweud wrthym i beidio. Os ydych am i ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam y credwch fod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu gwybodaeth dan gyfreithiau'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os byddwch yn gofyn i ni gadw rhan o'ch ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trafod y cais o ddifri' ac yn ceisio'i barchu, ond ni allwn warantu y bydd cyfrinachedd yn cael ei gadw ymhob amgylchiad.

Os byddwch yn e-bostio ymateb i'r ymgynghoriad ag ymwadiad cyfrinachedd awtomataidd gan eich system TG ynghlwm wrtho, ni fydd hyn, ynndo'i hun, yn rhwymol ar y CFFC.

Eich hawliau

Dan y gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch chi, a gallwch hefyd ofyn i ni ddileu eich ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a gyda phwy y dylech gysylltu, darllenwch ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy fynd i [pharmacyregulation.org/English-language-skills-consultation](https://www.pharmacyregulation.org/English-language-skills-consultation) a chwblhau'r holiadur ar-lein yno.

Rydyn ni'n annog ymatebwyr i ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno anfon ymateb drwy e-bost, ysgrifennwch eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a'i anfon aton ni drwy consultations@pharmacyregulation.org

Fformatau eraill

Cysylltwch â ni ar communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau am y broses ymgynghori ei hun, anfonwch nhw i: feedback@pharmacyregulation.org, neu eu postio aton ni yn y:

**Tîm Llywodraethu
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

Ein cynigion ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg

Rydyn ni wedi gofyn am dystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg gan ymgeiswyr i ymuno â'r gofrestr fel fferyllwyr neu dechnegwyr fferyllol ers i Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Gwybodaeth o'r Saesneg) 2015 (y 'gorchymyn gwybodaeth o'r Saesneg') gael ei gyflwyno. Gwnaeth y gorchymyn gwybodaeth o'r Saesneg newidiadau i Orchymyn Fferylliaeth 2010, drwy:

- gyflwyno gofyniad cyfreithiol i bob cofrestrydd ac ymgeisydd feddu ar y wybodaeth o'r Saesneg sy'n angenrheidiol i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel amod cofrestru gyda ni
- cyflwyno sail newydd ar gyfer achosion addasrwydd i ymarfer yn ymwneud â pheidio â meddu ar y wybodaeth ofynnol o'r Saesneg, a
- gosod dyletswydd statudol arnon ni i ymgynghori a chyhoeddi canllawiau ar y dystiolaeth, yr wybodaeth neu'r dogfennau sydd i'w darparu gan ymgeiswyr i ddangos bod ganddynt y wybodaeth ofynnol o'r Saesneg. Mae hefyd yn ofynnol i ni ymgynghori os dymunwn wneud unrhyw newidiadau i'r canllawiau cyhoeddedig

Ymgynghorwyd gyntaf ar ganllawiau ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg ym mis Medi 2015. Cymeradwywyd y canllawiau hyn gan ein Cyngor llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Medi 2016, er mwyn paratoi at gyfraith newydd oedd yn dod i rym ar 21 Tachwedd 2016. Rydym ni wedi defnyddio'r canllawiau hyn

gyda phob ymgeisydd newydd sydd wedi ymuno â'r gofrestr neu ddychwelyd iddi ers 21 Tachwedd 2016.

Y dystiolaeth rydyn ni'n ei derbyn ar hyn o bryd

Rhaid i'r dystiolaeth rydyn ni'n ei derbyn ar hyn o bryd:

- fod yn ddiweddar¹, yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn gadarn
- dangos yn glir y gall yr ymgeisydd ddarllen, ysgrifennu a chyfathrebu â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, perthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Saesneg, a
- bod yn hawdd ei dilysu gennym

Ar hyn o bryd rydyn ni'n derbyn tri math o dystiolaeth.

1. Pasio fersiwn academiaidd y System Profi Saesneg Ryngwladol (IELTS) yn ddiweddar gyda sgôr cyffredinol o 7 o leiaf a heb sgôr llai na 7 ym mhob un o bedwar maes darllen, ysgrifennu, gwranddo a siarad ar un ymgais ar y prawf.
2. Cymhwyster fferylliaeth diweddar a addysgwyd ac a arholwyd yn Saesneg o

¹ Wrth gyfeirio at 'diweddar', rydyn ni'n golygu tystiolaeth sy'n ymwneud â gallu yn yr iaith Saesneg sy'n llai na dwy flwydd oed ar adeg gwneud cais i'r CFFC.

wlad fwyafrifol Saesneg ei hiaith² megis Iwerddon, Unol Daleithiau America, Awstralia a Seland Newydd. Rhaid i'r cwrs cyfan fod wedi ei addysgu a'i arholi yn Saesneg ac mae'n rhaid i o leiaf 75% o unrhyw hyfforddiant mewn swydd gan gynnwys rhyngweithio clinigol, cyswllt â chleifion, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fu'n rhan o'r cwrs hwnnw fod wedi'i gynnal yn Saesneg.

3. Ymarfer diweddar am o leiaf ddwy flynedd fel gweithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwlad fwyafrifol Saesneg ei hiaith. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu geirda ysgrifenedig manwl gan eu cyflogwr gyda thystiolaeth i ddangos eu gallu ym mhedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Saesneg.

Felly, ar hyn o bryd lle mai dim ond drwy basio prawf Saesneg y gall ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'u sgiliau Saesneg, mae'n ofynnol iddynt basio fersiwn academaidd y prawf IELTS. Dyma'r unig brawf Saesneg rydyn ni'n ei derbyn ar hyn o bryd.

² Mae'r gwledydd a dderbyniwn fel 'gwledydd mwyafrifol Saesneg eu hiaith' yn seiliedig ar restr y Swyddfa Gartref o'r gwledydd mwyafrifol Saesneg eu hiaith, yn ogystal ag Iwerddon, fel y nodir yn nogfen ganllaw'r Swyddfa Gartref ***English language requirements: skilled workers***

Pryderon am allu ieithyddol

Mae ein canllawiau presennol yn nodi, os cawn honiad neu bryderon bod aelod efallai heb y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, y gall y cofrestrydd, y Pwyllgor Ymchwilio neu'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ei gwneud yn ofynnol i'r aelod sefyll y prawf IELTS academaidd a chyflawni'r sgôr gofynnol o 7 o leiaf heb sgôr llai na 7 ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad ar un ymgais ar y prawf.

Opsiwn prawf Saesneg gwahanol i IELTS

Yn yr ymgynghoriad hwn rydyn ni'n cynnig diwygio ein canllawiau ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg i gynnwys llwyddo yn y Prawf Saesneg Galwedigaethol Fferyllol (OET) fel tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg. Pan fydd unigolion yn sefyll OET Fferylliaeth, byddai'n ofynnol iddyn nhw sgorio o leiaf B ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad Saesneg ar un ymgais ar y prawf. Mae hyn yn cyfateb â'n gofyniad ar hyn o bryd i basio fersiwn academaidd prawf System Profi Saesneg Rhyngwladol (IELTS) yn ddiweddar gyda sgôr cyffredinol o 7 o leiaf a heb sgôr llai na 7 ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad ar un ymgais ar y prawf. Byddem yn parhau i dderbyn pàs diweddar o'r System Profi Saesneg Ryngwladol (IELTS) fel tystiolaeth.

Trosolwg o'r Prawf Saesneg Galwedigaethol (OET)

Yr OET yw'r unig prawf iaith Saesneg yn benodol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae 12 fersiwn gwahanol o'r OET, i brofi ymarferwyr iechyd o'r 12 proffesiwn nyrso, meddygaeth, deintyddiaeth, therapi galwedigaethol, optometreg, ffisiotherapi, fferylliaeth, radiotherapi, patholeg lleferydd, podiatreg, dieteteg a gwyddoniaeth filfeddygol. Mae'r Cyngor Bydwreigiaeth Cenedlaethol a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol eisoes yn derbyn yr OET fel tystiolaeth o allu ymgeiswyr yn y Saesneg fel prawf dewisol i'r prawf IELTS.

Mae'r OET, fel IELTS, yn eiddo'n rhannol i Cambridge Assessment English. Mae'r OET yn berthnasol i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ac fe'i derbynnir gan reoleiddwyr fferyllol fel Bwrdd Fferylliaeth Awstralia a Chymdeithas Fferyllol Iwerddon.

Mae'r OET yn wahanol i IELTS gan ei fod yn asesu sgiliau iaith drwy ddefnyddio sefyllfaoedd cyfathrebu gofal iechyd go iawn y mae ymgeiswyr yn debygol o fod ynghlwm wrthyn nhw yn y gweithle.

Mae'r OET yn bodloni ein meini prawf gan fod y prawf:

- **yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn gadarn**

Datblygir y deunyddiau prawf gan bobl sy'n arbenigo mewn gosod profion mewn cydweithrediad ag arbenigwyr pwnc, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol ac academyddion o ysgolion fferyllol a rhaglenni hyfforddi. Mae'r OET yn cael ei

ddarparu mewn dros 145 o leoliadau prawf mewn 44 o wledydd gan ddefnyddio cyfleusterau prawf diogel a staff hyfforddedig. Mae nodweddion ychwanegol yn cynnwys prosesau gwydn i wirio hunaniaeth ymgeiswyr a nodi camarfer ac mae'r profion yn cael eu hasesu'n ganolog.

- **yn profi gallu ymgeiswyr i ddarllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Saesneg**

Mae'r is-broffion ysgrifennu a siarad yn benodol i fferylliaeth, a'r profion darllen a gwrando yn cwmpasu pynciau cyffredinol sy'n gysylltiedig ag iechyd.

- **yn hawdd ei ddilysu gennym**

Mae'r rhaglen OET yn darparu porth dilysu canlyniadau diogel lle gall sefydliadau wirio dilysrwydd canlyniadau OET ymgeiswyr ar-lein mewn ffordd gyflym, ddiogel a dibynadwy.

Strwythur a chynnwys yr OET

Datblygwyd yr OET gyda ffocws ar y gallu i gyfathrebu yn y gweithle.

Er enghraifft, efallai y bydd yn ofynnol i ymgeisydd sy'n sefyll y prawf siarad fferyllol dawelu meddwl claf pryderus neu egluro proses dechnegol yn nhermau person lleyg.

Mae is-brawf ar wahân ar gyfer pob maes sgiliau a asesir gan OET: gwrando, darllen, ysgrifennu a siarad.

Tabl 1: Trosolwg o fformat y prawf

Is-brawf	Hyd	Cynnwys	Yn dangos y gall ymgeiswyr:
Gwranddo	40 munud	3 rhan Yn gyffredin i bob un o'r 12 proffesiwn	Dilyn a deall amrywiaeth o ddeunyddiau llafar sy'n gysylltiedig ag iechyd, megis ymgynghoriadau â chleifion a chyfathrebu yn y gweithle.
Darllen	60 munud	3 rhan Yn gyffredin i bob un o'r 12 proffesiwn	Darllen a deall gwahanol fathau o destunau ar bynciau'n ymwneud ag iechyd.
Ysgrifennu	45 munud: (40 ysgrifennu, 5 darllen)	1 dasg Yn benodol i bob proffesiwn	Ysgrifennu llythyr mewn ffordd glir a chywir sy'n berthnasol i'r darllenydd.
Siarad	20 munud	2 dasg Yn benodol i bob proffesiwn	Cyfathrebu'n effeithiol mewn cyd-destun bywyd go iawn drwy chwarae rôl.

Mae rhagor o fanylion am strwythur yr OET yn Atodiad 1.

Sut mae canlyniadau'r OET yn cymharu â'r sgorau IELTS rydyn ni'n eu derbyn

Er mwyn i dystysgrif prawf IELTS fod yn dderbyniol fel tystiolaeth o allu ymgeiswyr yn yr iaith Saesneg, rhaid iddynt fod wedi pasio fersiwn academaidd y prawf IELTS yn ddiweddar gyda sgôr cyffredinol o 7 o leiaf a heb sgôr llai na 7 ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwranddo a siarad ar un ymgais ar y prawf.

Nid oes gradd gyffredinol ar gyfer OET. Yn yr OET mae ymgeiswyr yn derbyn gradd ar wahân ar gyfer pob is-sgil hyfedredd ieithyddol – gwranddo, darllen, ysgrifennu a siarad. Caiff graddau eu sgorio ar raddfa rifol 0 – 500 ochr yn ochr â sgôr wedi ei seilio ar yr wyddor, o A (uchaf) i E (isaf). Mae'r sgoriau OET isod, ynghyd â chymhariaeth gyda sgoriau IELTS a disgrifyddion lefel ar gyfer pob gradd³.

³ Lim, G. *The OET and IELTS: A Benchmarking Report*: Cambridge Assessment English, DU 2016 (2016, diweddarwyd Hydref 2017).

Tabl2: Cymharu sgoriau OET a sgoriau IELTS

IELTS	Sgôr yn ôl rhif	Sgôr yn ôl yr wyddor	Disgrifydd band
8.0 - 9.0	450 - 500	A	Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ac yn effeithiol iawn â chleifion a gweithwyr iechedd proffesiynol gan ddefnyddio cywair, geirfa a thôn priodol. Yn dangos dealltwriaeth lawn o unrhyw fath o iaith ysgrifenedig neu lafar.
7.0 - 7.5	350 - 440	B	Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ac yn effeithiol â chleifion a gweithwyr iechedd proffesiynol gan ddefnyddio cywair, geirfa a thôn priodol, gyda gwallau ac oedi'n digwydd yn achlysurol yn unig. Yn dangos dealltwriaeth dda mewn ystod o gyd-destunau clinigol.
6.5	300 - 340	C+	Yn gallu cynnal y rhyngweithio mewn amgylchedd gofal iechedd perthnasol er gwaethaf gwallau a methiannau achlysurol, a dilyn iaith lafar safonol a ddefnyddir yn arferol ym maes arbenigo'r ymgeisydd.
5.5 - 6.0	200- 290	C	
Llai na 5.5	100 - 190	D	Yn gallu cynnal rhywfaint o ryngweithio a deall gwybodaeth ffeithiol syml ym maes arbenigo'r ymgeisydd ond efallai y bydd yn gofyn am eglurhad. Gall gwallau, methiannau a chamddefnyddio neu ordddefnyddio iaith dechnegol achosi straen wrth gyfathrebu.
	0 - 90	E	Yn gallu ymdopi gyda rhyngweithio syml ar bynciau cyfarwydd a deall prif bwynt negeseuon byr, syml, ar yr amod y gall ofyn am eglurhad. Gall dwysedd uchel o wallau a chamddefnyddio neu ordddefnyddio iaith dechnegol achosi straen a methiannau sylweddol wrth gyfathrebu.

Mae sgôr o B o leiaf ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn yr OET Fferylliaeth yn cyfateb i sgôr o 7.0 o leiaf gyda IELTS.



Diwygiadau i'n canllawiau ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg

Yn yr ymgynghoriad hwn rydyn ni'n cynnig diwygio ein canllawiau ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg i gynnwys llwyddo ym y Prawf Saesneg Galwedigaethol Fferyllol (OET) yn ddiweddar fel tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg, fel dewis amgen i'r System Profi Saesneg Ryngwladol (IELTS).

Byddai hyn yn golygu y byddai'r OET Fferylliaeth yn cael ei dderbyn fel dewis amgen i IELTS ar gyfer cymhwysedd i ddechrau'r Rhaglen Asesu Fferyllwyr Tramor ac i gofrestru.

Lle byddwn yn derbyn honiad neu pan fydd gennym bryderon nad oes gan aelod cofrestredig y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg, gall y cofrestrydd, y Pwyllgor Ymchwilio neu'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ei gwneud yn ofynnol i'r aelod basio naill ai fersiwn academaidd yr IELTS neu'r OET Fferylliaeth a darparu tystiolaeth o fod wedi cyflawni'r sgoriau pasio a dderbynnir ar un ymgais ar y prawf.

Gweler Atodiad 2 am ddrafft o ganllawiau diwygiedig yr adran ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydyn ni'n croesawu'ch barn ar y cwestiynau ymgynghori canlynol. Ewch i [pharmacyregulation.org/English-language-skills-consultation](https://www.pharmacyregulation.org/English-language-skills-consultation) i gwblhau'r arolwg ar-lein.

Rydyn ni'n yn cynnig derbyn pasio'r Prawf Saesneg Galwedigaethol Fferyllol (OET) fel tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg. Byddai hyn yn golygu y gellid defnyddio'r OET Fferylliaeth fel tystiolaeth at ddibenion cofrestru a phan fyddwn ni'n derbyn honiad neu os oes gennym bryderon ei bod yn bosibl nad oes gan aelod cofrestredig y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg. Rydwn ni'n cynnig y byddai'r OET Fferylliaeth yn opsiwn ychwanegol at y System Profi Saesneg Ryngwladol (IELTS) y bydden ni'n parhau i'w derbyn.

- 1. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r CFfC dderbyn yr OET Fferylliaeth fel tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg?**
- 2. Beth yw'r rheswm dros eich ateb?**
- 3. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r CFfC ddiffinio pasio'r OET Fferylliaeth yn dderbyniol fel sgôr o B o leiaf ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwranddo a siarad mewn un ymgais ar y prawf?**
- 4. Beth yw'r rheswm dros eich ateb?**

Rydwn ni am ddeall a allai ein cynigion effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- oedran
- anabled
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil/ethnigrwydd
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

5. Pa fath o effaith gredwch chi y caiff ein cynigion ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig?

Rydwn ni hefyd am wybod a fydd ein cynigion yn cael unrhyw effaith arall ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill (nad ydynt yn gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig), gan gynnwys cleifion, cyflogwyr fferyllol, staff fferyllol a darpar ymgeiswyr i gofrestr y CFfC.

- 6. Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar yr unigolion neu'r grwpiau hyn?**
- 7. Rhowch sylwadau yn esbonio'ch atebion i gwestiynau 5 a 6 uchod, neu sylwadau ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill y credwch y gellid effeithio arnynt. Disgrifiwch yr unigolion neu'r grwpiau dan sylw a'r effaith y credwch y caiff ein cynigion arnynt.**

Atodiad 1 - Manylion is-brofion yr OET

Is-brawf gwrando

Mae tair rhan i'r is-brawf gwrando:

Rhan A: ymgynghoriadau

Mae Rhan A yn cynnwys sain ymgynghoriad rhwng gweithiwr proffesiynol a chlaf ar dâp gyda chwestiynau llenwi bylchau (atebion byr), yn cwmpasu hanes rhannol achos penodol.

Rhan B: cyfathrebu yn y gweithle

Mae Rhan B yn cynnwys sain gweithwyr proffesiynol yn rhyngweithio ar dâp, gyda chwestiynau amlddewis.

Rhan C: cyflwyniad neu gyfweiliad byr:

Mae Rhan C yn cynnwys sain cyflwyniad neu gyfweiliad byr ar dâp ar bwnc gofal iechyd gyda chwestiynau amlddewis.

Mae'r recordiadau sain yn cynnwys ystod eang o acenion wrth siarad Saesneg, gan gynnwys lleisiau o Awstralia, Seland Newydd, Prydain, Iwerddon a Gogledd America.

Is-brawf darllen

Mae tair rhan i'r is-brawf darllen:

Rhan A: testun o'r gweithle

Tasg darllen crynodeb o destun gweithle yw hon. Gofynnir i ymgeiswyr sgimio a sganio pedwar testun byr (cyfanswm o tua 650 o eiriau) yn gysylltiedig ag un pwnc iechyd a pharu atebion, llenwi bylchau ac ymateb i gwestiynau ateb byr. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ysgrifennu ymatebion ar gyfer cyfanswm o 25-35 o fylchau, o fewn terfyn amser 15 munud a gaiff ei fonitro'n llym. Mae'r dasg ddarllen hon wedi'i chynllunio i brofi gallu'r ymgeisydd i gael gwybodaeth o destunau lluosog a syntheseiddio gwybodaeth mewn ffordd ystyrlon ac i asesu gallu sgimio a sganio o fewn amser cyfyngedig.

Rhannau B ac C: testunau o'r gweithle

Gofynnir i ymgeiswyr ddarllen dau ddarn o 600-800 o eiriau yr un ar bynciau iechyd cyffredinol ac ateb cwestiynau amlddewis ar bob testun, cyfanswm o 16-20 cwestiwn o fewn terfyn amser o 45 munud. Mae Rhannau B ac C wedi'u cynllunio i asesu gallu ymgeiswyr i ddarllen a deall gwybodaeth gyffredinol a phenodol yn fanylach.

Is-brawf ysgrifennu

Mae'r is-brawf ysgrifennu yn cynnwys tasg lle mae ymgeiswyr, drwy ryngweithio â set o nodiadau achos clinigol, yn cynhyrchu llythyr at weithiwr proffesiynol arall (atgyfeiriad fel arfer). Rhaid i'r llythyr gofnodi'r driniaeth a gynigiwyd hyd yma a'r materion y mae'r gweithiwr proffesiynol eraill yn mynd i'r afael â nhw, yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn y prawf. Rhaid i'r llythyr ystyried y deunydd ysgogi a gyflwynir yn y nodiadau achos.

Rhaid i gorff y llythyr gynnwys tua 180-200 o eiriau a bod mewn fformat priodol. Mae terfyn amser 45 munud ar gyfer y prawf.

Is-brawf siarad

Mae'r is-brawf siarad yn brawf o ddefnydd llafar yr ymgeisydd o'r Saesneg i gyfathrebu mewn ffug ymgynghoriad sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r ffug ymgynghoriad rhwng claf ac ymarferydd iechyd, gyda'r ymgeisydd yn rôl y fferylllydd neu'r technegydd fferyllol a'r cyd-sgwrsiwr yn rôl y claf neu berthynas i'r claf, neu ofalwr y claf. Mae'r ymgeisydd a'r cyd-sgwrsiwr yn rhyngweithio wyneb yn wyneb. Mae'n cynnwys dau ffug ymgynghoriad ar ffurf dwy sefyllfa chwarae rôl.

Atodiad 2- geiriad y canllawiau arfaethedig

Mae'r atodiad hwn yn dangos y diwygiadau rydyn ni'n eu cynnig i'r geiriad sy'n berthnasol i brofion Saesneg yn y ddogfen *Canllawiau ar dystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg*.

Cyflwyniad

Un o'r ffyrdd allweddol rydyn ni'n diogelu'r cyhoedd yw drwy sicrhau mai dim ond fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol sy'n gallu cofrestru a gweithio ym Mhrydain.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Saesneg. Mae clefion a'r cyhoedd yn disgwyl, a hynny'n briodol, y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal gyfathrebu'n glir â nhw. Gallai caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd heb y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg ymarfer ym Mhrydain hefyd beryglu diogelwch clefion.

Rydyn ni'n ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n gwneud cais i gofrestru'n fferylllydd neu'n dechnegydd fferyllol ddarparu tystiolaeth, gwybodaeth neu ddogfennau i ddangos bod ganddyn nhw'r wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac effeithiol cyn iddyn nhw allu cofrestru.

Rydyn ni'n cyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r dystiolaeth, y wybodaeth neu'r dogfennau y

mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer cofrestru eu darparu i ddangos bod ganddyn nhw'r wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer yn ddiogel ym Mhrydain a'r prosesau y mae'n rhaid i ni eu dilyn i wirio hyn.

Sut mae hyn yn effeithio arnoch chi

Mae'r canllawiau hyn sy'n nodi'r dystiolaeth, y wybodaeth neu'r dogfennau y mae'n rhaid i chi eu darparu i ddangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer yn ddiogel ym Mhrydain yn berthnasol i bob aelod cofrestredig a phob ymgeisydd sy'n dymuno cofrestru. Felly, maen nhw'n berthnasol i chi:

- boed yn gwneud cais i gofrestru fel fferylllydd neu fel technegydd fferyllol a
- boed wedi cymhwyso'n weithiwr fferyllol proffesiynol:
- yn y Deyrnas Unedig (DU),
- mewn aelod-wladwriaeth arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, neu
- mewn gwlad y tu allan i'r DU, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir.

Rhaid i ni gyfeirio at y canllawiau hyn pan fyddwch yn gwneud cais i gofrestru neu adfer eich cofnod i'r gofrestr i wirio a oes gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol. Gallwn wrthod eich cofrestru os nad ydych yn darparu tystiolaeth o'ch gwybodaeth o'r Saesneg, neu lle nad yw'r dystiolaeth a ddarparwch yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y canllawiau hyn.

Sylwer nad yw ein gofynion o ran tystiolaeth o sgiliau yn yr iaith Saesneg yn disodli'r rôl bwysig iawn y bydd cyflogwyr yn parhau i'w chwarae wrth sicrhau bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol yn y rôl rydych chi'n gwneud cais amdani, yn rhan o'u proses cyfweld a dethol.

Meini prawf ar gyfer asesu tystiolaeth iaith

Nodir ein meini prawf o ran asesu tystiolaeth a gwybodaeth mewn perthynas â gwybodaeth o'r Saesneg isod. Mae'r meini prawf yn adlewyrchu ein nod o sicrhau diogelwch cleifion ac yn rhoi sicrwydd digonol i ni fod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer fel gweithiwr fferyllol proffesiynol yn ddiogel ac yn effeithiol ym Mhrydain cyn i ni allu'ch cofrestru.

Rhaid i'r dystiolaeth a roddwch ddangos eich gallu ym mhedwar maes:

- darllen
- ysgrifennu
- gwranddo, a
- siarad yn Saesneg

a rhaid iddi:

- fod yn ddiweddar*, yn wrthrychol, yn annibynnol ac yn gadarn;
- arddangos yn glir eich bod yn gallu darllen, ysgrifennu a chyfathrebu â chleifion, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, perthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn Saesneg, a
- bod yn hawdd ei dilysu gennym

*Wrth gyfeirio at 'diweddar' gydol y canllawiau hyn, rydyn ni'n golygu tystiolaeth yn ymwneud â sgiliau yn yr iaith Saesneg sy'n llai na dwy flwydd

oed, cymwysterau a ddyfarnwyd lai na dwy flynedd yn ôl, neu ymarfer a gwblhawyd lai na dwy flynedd yn ôl ar adeg gwneud y cais i'r CFfC.

Mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn i ddangos eich gwybodaeth o'r Saesneg

Ymgeiswyr wedi cymhwyso yn y DU

Os ydych yn ymgeisydd sydd wedi cymhwyso yn y DU ac sydd am gofrestru'n fferyllol ar ôl cwblhau:

- gradd Meistr Fferylliaeth wedi ei hachredu gan y CFfC o brifysgol yn y DU a
- hyfforddiant cyn-gofrestru a'r asesiad cofrestru o fewn y DU

byddwch yn y rhan fwyaf o achosion yn bodloni'r cofrestrydd yn awtomatig eich bod yn cyflawni'r gofynion o ran sgiliau yn yr iaith Saesneg ar gyfer cofrestru.

Os ydych yn ymgeisydd sydd wedi cymhwyso yn y DU ac yn dymuno cofrestru'n dechnegydd fferyllol ar ôl cwblhau cymhwyster gwybodaeth a gallu cymeradwy yn y DU tra'n gweithio dan oruchwyliaeth, cyfarwyddyd neu arweiniad fferyllol cofrestredig ym Mhrydain, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, byddwch yn bodloni'r cofrestrydd yn awtomatig yn y rhan fwyaf o achosion eich bod yn bodloni'r gofynion Saesneg ar gyfer cofrestru.

Ymgeiswyr wedi cymhwyso y tu allan i'r DU

Mae gwahanol ffyrdd y gallech ddangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer ym Mhrydain ac adlewyrchir hyn yn y mathau o dystiolaeth y byddwn yn eu derbyn.

Byddwn yn adolygu ein gofynion tystiolaeth ynghylch sgiliau yn yr iaith Saesneg yn rheolaidd



er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas. Byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i ffynonellau newydd o dystiolaeth a all roi sicrwydd i ni fod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg. Lle rydyn ni'n fodlon y gall tystiolaeth newydd fodloni ein meini prawf byddwn yn ymgynghori ar newid ein canllawiau i'w chynnwys.

Nodir isod y mathau o dystiolaeth y byddwn yn derbyn eu bod yn dangos bod gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg i ymarfer fel gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain.

Tystiolaeth math 1a:

Pasio **fersiwn academiaidd prawf System Profi Saesneg Rhyngwladol (IELTS)** yn ddiweddar (mewn prawf a wnaed lai na dwy flynedd yn ôl adeg gwneud y cais i'r CFC) gyda sgôr cyffredinol o 7 o leiaf a heb sgôr llai na 7 ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad ar un ymgais ar y prawf.

Efallai y byddwn yn derbyn sgoriau profion IELTS sy'n fwy na dwy flwydd oed os gallwch ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cynnal eich hyfedredd yn y Saesneg yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall hyn fod er enghraifft os ydych wedi gweithio fel gweithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwlad fwyafrifol Saesneg ei hiaith ac o leiaf 75 y cant o'ch rhyngweithio o ddydd i ddydd â chleifion, gofawyr, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill wedi bod yn Saesneg.

Tystiolaeth math 1b:

Pasio **Prawf Saesneg Galwedigaethol Fferylliaeth (OET)** yn ddiweddar (mewn prawf a wnaed lai na dwy flynedd yn ôl adeg gwneud y cais i'r CFC) gyda sgôr B o leiaf ym mhob un o

bedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad ar un ymgais ar y prawf.

Efallai y byddwn yn derbyn sgorau profion OET sy'n fwy na dwy flwydd oed os gallwch ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cynnal eich hyfedredd yn y Saesneg yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall hyn fod er enghraifft os ydych wedi gweithio fel gweithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwlad fwyafrifol Saesneg ei hiaith ac o leiaf 75 y cant o'ch rhyngweithio o ddydd i ddydd â chleifion, gofawyr, eu teuluoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill wedi bod yn Saesneg.

Tystiolaeth math 2:

Cymhwyster fferylliaeth diweddar (a ddyfarnwyd lai na dwy flynedd yn ôl) sydd wedi'i addysgu a'i arholi yn Saesneg mewn gwlad fwyafrifol Saesneg ei hiaith ar wahân i'r DU. Mae'r gwledydd a dderbyniwn fel 'gwledydd mwyafrifol Saesneg eu hiaith' yn seiliedig ar restr y Swyddfa Gartref o'r gwledydd mwyafrifol Saesneg eu hiaith, fel y nodir yn nogfen ganllaw'r Swyddfa Gartref ***English language requirements: skilled workers***, ac Iwerddon.

Rhaid i'r cwrs cyfan fod wedi ei addysgu a'i arholi yn Saesneg ac mae'n rhaid i o leiaf 75% o unrhyw hyfforddiant mewn swydd gan gynnwys rhyngweithio clinigol, cyswllt â chleifion, gofawyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill fu'n rhan o'r cwrs hwnnw fod wedi'i gynnal yn Saesneg.

Bydd angen i chi allu dangos bod eich hyfforddiant wedi rhoi cyfle i chi ddangos eich gallu i ddarllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Saesneg.

Tystiolaeth math 3:

Ymarfer diweddar (a gwblhawyd lai na dwy flynedd yn ôl ar adeg gwneud cais i'r CFFC) am o leiaf ddwy flynedd fel gweithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwlad fwyafrifol Saesneg ei hiaith.

Bydd gofyn i chi ddarparu geirda ysgrifenedig manwl gan eich cyflogwr/cyflogwyr o ran eich gwybodaeth o'r Saesneg. Yn rhan o'r geirda hwn, bydd yn ofynnol i gyflogwr ddarparu tystiolaeth o sut rydych chi wedi dangos eich gallu i ddarllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Saesneg.

Os oedd yn ofynnol i chi basio prawf Saesneg cyn cael cofrestru ac ymarfer fel gweithiwr fferyllol proffesiynol mewn gwlad arall fwyafrifol Saesneg ei hiaith, yna gallwch ddarparu tystiolaeth o fod wedi pasio asesiad Saesneg o'r fath.

Os mynegir pryder am allu ieithyddol tra byddwch ar y gofrestr

O dan y gyfraith⁴, efallai yr ystyrir bod nam ar eich addasrwydd i ymarfer ar y sail nad oes gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg. Os cawn honiad neu os oes gennym bryderon ein hunain nad oes gennych y wybodaeth angenrheidiol o'r Saesneg ac o ganlyniad efallai bod nam ar eich addasrwydd i ymarfer yna caiff hyn ei drin fel honiad yr ymdrinnir ag ef drwy'r broses addasrwydd i ymarfer.

Ymdrinnir ag achosion o'r fath mewn ffordd debyg i unrhyw honiad arall o nam ar addasrwydd i ymarfer. Os ydych yn destun honiad neu bryder o'r fath gall y cofrestrydd, y

Pwyllgor Ymchwilio neu'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ei gwneud yn ofynnol i chi gael eich asesu o ran eich gwybodaeth o'r Saesneg. Os bydd hyn yn digwydd bydd gofyn i chi sefyll naill ai:

- fersiwn academiaidd y prawf IELTS a chael sgôr cyffredinol o 7 o leiaf heb sgôr llai na 7 ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad ar un ymgais ar y prawf.

neu

- yr OET Fferylliaeth a chael sgôr B o leiaf ym mhob un o'r pedwar maes darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad Saesneg ar un ymgais ar y prawf.

⁴ Erthygl 51(1)(ca) Gorchymyn Fferylliaeth 2010



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
Ff 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPHC](https://twitter.com/TheGPHC)
 [TheGPHC](https://www.facebook.com/TheGPHC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org